

Planhigion gwyllt o Gymru er budd y dirwedd a bioamrywiaeth

Adroddiad seminar

a fynychwyd gan weithwyr proffesiynol ym maes rheoli tir sy'n ymwneud â gwaith cynllunio, rheoli, adfer a dylunio mannau gwyrdd er budd bioamrywiaeth, y dirwedd a mwynhad y cyhoedd.

cynhaliwyd ar 25 Chwefror 2009 yn Llandrindod



Lluniwyd gan *Flora locale*
Menter Dolydd Byw (Cymru) *Flora locale*

www.wildmeadows.org.uk



Flora locale
Postern Hill Lodge
Marlborough
Wiltshire SN8 4ND

Ffôn: 01672 515723
E-bost: info@floralocale.org

www.floralocale.org.



Cafodd y seminar ei gefnogi gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru a Sefydliad Esmée Fairbairn

Cynnwys

1. Cefndir
2. Cyflwyniad
3. Casgliadau ac argymhellion y seminar
4. Crynodeb o'r argymhellion
5. Rhestr o siaradwyr a chynrychiolwyr

Ffynonellau gwybodaeth eraill:

Gwefannau

www.floralocale.org

www.wildmeadows.org.uk

Dogfennau dwyieithog a gynhyrwyd gan *Flora locale*

Nodiadau Cyngori Technegol: Adfer dolydd blodau gwyllt Cymru

Pori er budd planhigion gwyllt a bioamrywiaeth

Caeau merlod a bioamrywiaeth

Darganfod planhigion gwyllt

Planhigion gwyllt o Gymru er budd y dirwedd a bioamrywiaeth - Canllawiau ar gyfer prosiectau plannu yng nghefn gwlad

Maniffesto ar gyfer dolydd byw Cymru

Taflen adnabod blodau gwyllt

1. Cefndir

Mae'r seminar, Planhigion gwyllt o Gymru er budd y dirwedd a bioamrywiaeth, a'r adroddiad hwn yn gynnyrch allweddol Menter Dolydd Byw (Cymru) *Flora locale*. Roedd y nodau fel a ganlyn:

Diogelu a gwella ansawdd dolydd byw yng Nghymru

- tynnu sylw at yr angen i ddiogelu a gwella dolydd byw yn y dirwedd drefol
- codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd manau gwyrdd mewn glaswelltiroedd lleol fel "lleoedd byw"
- helpu i alluogi awdurdodau lleol i gyflawni eu hymrwymiaethau o ran bioamrywiaeth mewn perthynas â glaswelltiroedd llawn rhywogaethau sy'n bodoli ar hyn o bryd
- cefnogi ecolegwyr awdurdodau lleol i ddatblygu dulliau priodol o reoli glaswelltiroedd sy'n eiddo i awdurdodau lleol
- cyflwyno'r Maniffesto ar gyfer *Dolydd Byw Cymru* i'r cynrychiolwyr a gwella'r mynediad i nodiadau cynghori technegol *Flora locale* a'i wybodaeth am ddolydd byw, a sicrhau eu bod ar gael yn hwylus.

Cynyddu'r defnydd a wneir o blanhigion gwyllt o Gymru mewn prosiectau adfer

- hybu'r defnydd a wneir o blanhigion gwyllt brodorol yng Nghymru, e.e. trwy dynnu sylw at bwysigrwydd defnyddio planhigion gwyllt yn gywir a'r cyfleoedd i wneud hynny (gan gynnwys adfywio naturiol lle bo hynny'n briodol) yn sail ar gyfer gwella bioamrywiaeth
- rhannu arfer da a gwybodaeth am gyflenwi a defnyddio pob math o blanhigion gwyllt, gan gynnwys cymysgeddau o goed a blodau gwyllt, ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud â datblygu.

Gwella'r canlyniadau o ran bioamrywiaeth a ddaw yn sgîl penderfyniadau ynghylch datblygiadau cynllunio yng Nghymru.

2. Cyflwyniad

Mynychwyd y seminar gan 40 o weithwyr proffesiynol ym maes rheoli tir sy'n ymwneud â gwaith cynllunio, rheoli, adfer a dylunio manau gwyrdd er budd bioamrywiaeth, y dirwedd a mwynhad y cyhoedd. Gweler Atodiad 1 am restr o gynrychiolwyr, siaradwyr a hwyluswyr.

Agorwyd y seminar gan Iolo Williams, noddwr Menter Dolydd Byw (Cymru), ac fe'i cadeiriwyd gan Richard Clarke, Cadeirydd *Flora locale*.

Cafwyd cyflwyniadau ar y pynciau canlynol:

- Adfer wyneb chwareli: Noel Williams, Castle Cement
- Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog: Cyfleoedd i adfer a gwella bioamrywiaeth ar ôl gosod y bibell nwy. Graham Cowden, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.
- Adfer gwlyptiroedd ac afonydd trefol. David Holland, Rheolwr-gyfarwyddwr, Salix River & Wetland Services Ltd.
- Defnyddio planhigion gwyllt mewn ardaloedd dinesig. Richard Scott, Uwch-ecolegydd, Landlife
- Technegau ar gyfer monitro safleoedd sydd wedi'u hadfer. Gerry Lucas: Uwch-ddarlithydd mewn Daeareg a'r System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS), Prifysgol Edge Hill
- Dod o hyd i blanhigion brodorol o Gymru. Steven Bromley, Swyddog Amgylchedd Cymru a Groundwork Cymru
- Adfer safleoedd tir llwyd. Kylie Jones, Rheolwr Gwarchodfeydd, New Wildlife

Bu grwpiau o gynrychiolwyr yn ystyried materion dan y penawdau canlynol:

- Llwyddo i adfer
- Adnoddau a gwybodaeth ar gyfer adfer
- Monitro ar ôl adfer

Mae'r syniadau a'r safbwyntiau a fynegwyd yn y gweithdai hyn wedi'u cyhoeddi yn yr adroddiad hwn. Bwriedir iddynt fod yn sail i'r penderfyniadau a'r camau gweithredu a gymerir gan yr unigolion a'r sefydliadau hynny sy'n gweithio yng Nghymru, yn enwedig felly Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae cyhoeddiad o'r enw *Planhigion gwyllt o Gymru er budd y dirwedd a bioamrywiaeth*, wedi'i gynhyrchu gan *Flora locale*, sy'n cyflwyno arfer da a chynghor ynghylch dod o hyd i blanhigion brodorol o Gymru a'u defnyddio mewn gwaith adfer ecolegol, gan gynnwys gwaith creu cynefinoedd. Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn rhad ac am ddim gan *Flora locale* (dylech amgáu amlen fawr â'ch cyfeiriad a stamp arni, neu lawrlwytho'r cyhoeddiad o www.floralocale.org).

3. Casgliadau ac argymhellion

Mae *Flora locale* wedi llunio'r casgliadau a'r argymhellion hyn ar sail y gweithdai a'r trafodaethau a gafwyd yn y sesiynau llawn a cheir crynodeb o'r argymhellion yn adran 4. Mae'r argymhellion wedi'u nodi mewn print trwm.

3.1 Cynllunio (rheoli datblygu)

Mae angen cryfhau'r system gynllunio er mwyn ei galluogi i drin bioamrywiaeth fel mater craidd. Yng Nghymru, nid oes fersiwn diwygiedig wedi'i gyhoeddi o Nodyn Cynghori Technegol 5 (sy'n cyfateb i *Planning Policy Statement 9: Biodiversity and geological conservation* yn Lloegr). Mae hyn wedi creu bwch mawr o safbwynt polisi, ac o ganlyniad nid oes digon o arweiniad ar gael i gynllunwyr a datblygwyr ar hyn o bryd. Mae'r materion penodol sy'n ymwneud â chynllunio a bioamrywiaeth yn cynnwys y canlynol:

- Asesiad ecolegol annigonol a diffyg gwybodaeth am safleoedd sy'n destun ceisiadau cynllunio; nodir bod hynny'n un o'r pethau sy'n peri i gynefinoedd gael eu dinistrio o ganlyniad i waith datblygu.
- Mae angen integreiddio cyfleoedd i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth yn gynnar yn y broses gynllunio, ac mae angen i'r rheiny sy'n ymwneud â'r gwaith o gynllunio a gwerthuso datblygiad (y datblygwr, ymgynghorydd cynllunio'r datblygwr, y pensaer tirwedd a chynllunydd yr awdurdod lleol) ddeall y cyfleoedd hynny fel bod cynefinoedd yn cael eu hadfer neu eu creu yn rhan o'r gwaith datblygu.
- Yn y canllawiau cynllunio diwygiedig, mae angen cydnabod yn llawn mai'r arfer gorau mewn prosiectau adfer yw defnyddio stoc gwyllt sy'n tarddu o Gymru a defnyddio dulliau adfer naturiol; bydd pennu bod rhaid defnyddio stoc o Gymru'n helpu mentrau busnes lleol hefyd.
- Mae angen i bob awdurdod cynllunio lleol allu cael gafaél yn hawdd ar weithwyr proffesiynol cymwys sy'n gallu rhoi cynghor ynghylch materion bioamrywiaeth sy'n berthnasol i gynllunio'n gyffredinol a cheisiadau cynllunio unigol.

Argymhellion

- a) Dylid gofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru adolygu a diweddarau canllawiau polisi cynllunio sy'n ymwneud â bioamrywiaeth. Dylai'r canllawiau hyn argymhell defnyddio stoc brodorol sy'n tarddu o Gymru os yw'r datblygiadau'n cynnwys cyflwyno planhigion er budd bioamrywiaeth (creu ac adfer cynefinoedd). Os nad oes stoc sy'n tarddu o Gymru ar gael, dylid cael gafael ar stoc brodorol sy'n tarddu o ardal y gororau neu o leoedd ymhellach i ffwrdd ym Mhrydain.
- b) Dylai sefydliadau ac unigolion sy'n cadw cofnodion ynghylch safleoedd sy'n werthfawr o safbwynt bioamrywiaeth ddod yn ymwybodol o werth cyflwyno eu gwybodaeth i Ganolfannau Cofnodion Lleol.

3.2 Stoc plannu brodorol sy'n tarddu o Gymru

Mae'r galw am stoc yn anghyson, ceir cyfnodau o alw mawr, a cheir amheuan ynghylch ei gynladwyedd. Mae hynny'n achosi anawsterau i'r sawl sy'n tyfu planhigion mewn marchnad mor ansicr, ac mae'n cyfyngu ar faint o stoc addas sydd ar gael. O ganlyniad i hyn, mae llawer o'r stoc plannu (yn enwedig hadau blodau gwyllt) yn cael ei fewnforio o'r tu allan i Gymru.

Dywedodd unigolion a oedd yn paratoi manylebau ar gyfer cynlluniau plannu nad oeddent yn gwybod ble y gallent ddod o hyd i stoc brodorol o Gymru, ac roeddent am gael gwybodaeth well ynghylch yr hyn a oedd ar gael. Gwelwyd bod dryswch ynghylch terminoleg, er bod y termau sy'n cael eu defnyddio llawer wedi'u diffinio'n glir gan amryw o wahanol gyrff.

Mae angen i'r galw am stoc brodorol sy'n tarddu o Gymru gael ei adlewyrchu yn yr archebion a gadarnhawyd amdano. Dylai'r galw ysgogi busnesau yng Nghymru i dyfu stoc brodorol sy'n tarddu o Gymru.

Dylai cyrff cyhoeddus arwain yn hyn o beth trwy roi sylw i'r mater hwn yn eu polisiau a'u harferion o ran caffael (caffael cynladwy), ac yn eu harweiniad diwygiedig ynghylch cynllunio. Dylid ystyried bod dewis defnyddio stoc brodorol sy'n tarddu o Gymru yr un mor bwysig â chaffael bwyd sydd wedi'i gynhyrchu'n lleol. Wrth gaffael stoc plannu, dylid hefyd ystyried ôl troed carbon stoc brodorol sy'n cael ei dyfu'n lleol o'i gymharu â stoc sydd wedi'i fewnforio o'r tu allan i Gymru. Ni ddylai polisi caffael atal stoc addas o ardal y gororau neu o rywle arall rhag cael ei fewnforio, os mai hynny yw'r dewis gorau sydd ar gael.

Argymhellion

- c) Dylai rheolwyr prosiect gynllunio ymlaen ddigon; dylid rhoi archebion ar gyfer stoc plannu brodorol sy'n tarddu o Gymru yn gynnar yn y prosiect. Caiff tyfu i gcontract ac adeiladu perthynas waith agos â thyfwr lleol eu hargymell.
- ch) Dylai manylebau ar gyfer stoc plannu fod yn glir ac yn ddiamwys er mwyn osgoi achosion o gam-gyflenwi (e.e. nid yw "tyfwyd yng Nghymru" yn golygu'r un peth â bod yn brodorol i Gymru neu darddu o Gymru). Argymhellir y dylid darllen cyhoeddiad *Flora locale, Planhigion gwyllt o Gymru er budd y dirwedd a bioamrywiaeth*.

Mynegwyd barn gref bod angen codi ymwybyddiaeth ynghylch pwysigrwydd dod o hyd i ardaloedd o laswelltir sy'n llawn rhywogaethau y gellir eu defnyddio i grynhoi hadau ohonynt, i gynorthwyo prosiectau gwella dolydd byw.

Argymhelliad

- d) Dylid gofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru gyflwyno cymhelliad ariannol i berchnogion/ffermwyr safleoedd lle ceir glaswelltir sy'n llawn rhywogaethau sy'n addas i grynhoi hadau ohonynt.

Er bod nifer o gynhyrchwyr yn gallu cyflenwi planhigion a hadau brodorol sy'n tarddu o Gymru,

roedd nifer o'r cynrychiolwyr a oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn ansicr ynghylch yr hyn a oedd ar gael ac o ble y gellid ei gael. Ceir rhestr o gyflenwyr ar wefan *Flora locale*.

Argymhelliad

- dd) Dylai *Flora locale* chwilio am gyllid i ddod o hyd i gyflenwyr stoc plannu brodorol sy'n tarddu o Gymru, a sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael ar ei wefan.**

3.3 Rheoli parciau a mannau gwyrdd trefol

Ceir nifer o gyfleoedd i wella gwerth parciau a mannau agored trefol o ran eu bioamrywiaeth. Mae nifer o rwystrau'n bodoli hefyd, sy'n atal newidiadau rhag cael eu gwneud i dulliau rheoli confensiynol, sy'n arwain at ganlyniadau gwael o ran bioamrywiaeth. Mewn rhai achosion, byddai dull gweithredu ecolegol yn arwain at arbedion o ran costau ac yn gwella ansawdd y mannau gwyrdd yn ogystal â lleihau ôl troed carbon yr awdurdod. Byddai staff a chontractwyr awdurdodau lleol yn elwa o gael gwell hyfforddiant ac o weld bioamrywiaeth yn cael ei gynnwys yn rhan o arfer da wrth reoli ystâd awdurdodau lleol.

Yn ogystal, mae angen i ecolegwyr ddeall y cyfyngiadau a'r ystyriaethau ymarferol sy'n gysylltiedig â mannau gwyrdd trefol, megis y defnydd a wneir ohonynt ar hyn o bryd, sut i fynd i'r afael â chanfyddiadau'r cyhoedd, cost a rhwyddineb eu rheoli a materion yn ymwneud â delio â chontractwyr a chriwiau lladd gwair.

Argymhellion

- e) Dylai Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru a swyddogion Bioamrywiaeth Lleol ddatblygu dull o reoli mannau gwyrdd trefol a fydd yn gwella canlyniadau o ran bioamrywiaeth yn ystâd yr awdurdodau lleol. Mae'r awgrymiadau'n cynnwys darparu set o adnoddau i'r sawl sy'n rheoli ac yn cynnal mannau gwyrdd a chreu rôl Hyrwyddwr Bioamrywiaeth ar gyfer aelod etholedig o'r awdurdod lleol.**
- f) Dylid gofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru fynnu bod pob awdurdod lleol a chorff cyhoeddus yn cynnal Archwiliad Amgylcheddol ffurfiol¹ ac yn datblygu System Reoli Amgylcheddol² sy'n rhoi sylw llawn i warchod ac adfer bioamrywiaeth, ac sy'n ystyried mesur ôl troed carbon wrth reoli ystâd awdurdodau lleol.**

3.4 Y gost

Gall prosiectau sydd wedi'u cynllunio'n dda ac sy'n defnyddio'r arfer gorau o ran egwyddorion adfer ecolegol arwain at arbedion sylweddol o ran costau o'u cymharu â dulliau confensiynol. Yn ei chwareli calchfaen yng Nghymru mae Castle Cement yn defnyddio llystyfiant sy'n bodoli'n barod ar gyfer adfer, yn hytrach na phrynu stoc er mwyn ailblannu ardaloedd sydd wedi'u cloddio. Mae'r dechneg yn cynnwys storio pridd yn ofalus ar y safle a gosod ffrwydron mewn modd sy'n creu sgrïau ar wynebau a gloddiwyd lle gall llystyfiant ailgytrefu'n hawdd.

Gall creu a rheoli dolydd byw mewn rhannau addas o fannau gwyrdd trefol arwain at arbedion o ran costau hefyd gan fod angen torri'r llystyfiant yn llai aml. Fodd bynnag, mae angen ystyried sut mae trefnu'r gwaith o dorri a chael gwared â gwair hir (e.e. gwastraff gwyrdd neu fio-màs). (Anfonwch e-bost at: info@floralocale.org i gael costau cymharol).

Roedd defnyddio stoc plannu brodorol sy'n tarddu o Gymru yn cael ei ffafrio. Fodd bynnag, cafwyd enghreifftiau o gynhyrchwyr lleol yn methu ennill archebion oherwydd bod y prisiau'n rhy uchel o'u

¹ Gweler BS EN ISO 19011: Guidelines for Quality and Environmental Management Systems Auditing

² ISO cyfres 1400, e.e. gweler www.iso14000-iso14001-environmental-management.com/

cymharu â phrisiau cynhyrchwyr mwy o faint mewn gwledydd eraill a oedd yn gallu elwa o arbedion maint. Dylid cofio mai cost fach yw plannu fel arfer o'i chymharu â chost llafur, pethau i amddiffyn coed, polion ac ati. Yn ogystal, dylid ystyried yr ôl troed carbon y bydd mewnforio stoc yn ei greu (h.y. bydd cludo'r stoc yn cynyddu'r ôl troed carbon). Mae'n bosibl y bydd Dadansoddiad Cylch Bywyd yn dangos, at ei gilydd, bod defnyddio stoc plannu brodorol sy'n tarddu o Gymru yn costio llai yn amgylcheddol; ni ddylai cost uniongyrchol sydd ychydig yn uwch olygu na ellir defnyddio stoc plannu brodorol sy'n tarddu o Gymru.

Argymhelliad

- ff) Dylai *Flora locale*, sefydliadau ac unigolion sicrhau bod gwybodaeth ar gael ynghylch prosiectau o safon sydd wedi'u cynllunio'n dda gan ddefnyddio'r arfer gorau o ran egwyddorion adfer ecolegol sy'n gost-effeithiol. Gellir rhoi'r wybodaeth hon ar wefannau *Flora locale*, www.floralocale.org a www.wildmeadows.org.uk.**

3.5 Cyllid ar gyfer prosiectau adfer bioamrywiaeth

Roedd anhawster i sicrhau cyllid yn cael ei ystyried yn rhwystr sylweddol wrth geisio gweithredu prosiectau, ynghyd â natur tymor byr y cyllid a'r pwyslais ar gyllid cyfalaf, lle mai'r eitem fwyaf costus o safbwynt refeniw yw'r rheolwr prosiect.

Ystyriwyd bod diffyg cyllid yn rhwystr hefyd wrth geisio monitro'n effeithiol ar ôl gwneud gwaith adfer. Mae angen ystyried costau rheoli parhaus tymor hwy wrth ddatblygu prosiect, neu ceir perygl y bydd gwaith rheoli hanfodol yn cael ei anghofio unwaith y bydd prosiect wedi "gorffen".

Mewn nifer o weithdai, tynnodd y cynrychiolwyr sylw at y ffaith ei bod yn debygol bod mwy o gyfleoedd i brosiectau cymunedol eu natur gael cyllid os ydynt yn gallu gweithredu ar flaenoriaethau eraill o ran polisïau'r llywodraeth yn ymwneud â manteision cymdeithasol a manteision iechyd, er enghraifft. O gofio bod yr hinsawdd ariannol yn mynd yn fwyfwy anodd, mae'n bosibl y bydd prosiectau sydd â sawl nod ac nad ydynt yn canolbwyntio ar fioamrywiaeth yn unig yn fwy tebygol o gael cyllid. Fodd bynnag, nid oedd yn ymddangos bod gwybodaeth glir ar gael ynghylch gwerth bioamrywiaeth i gefnogi agendâu eraill.

Roedd y cynrychiolwyr o'r farn bod y ffrydiau ariannu'n gymhleth, yn anodd cael mynediad iddynt a bod angen iddynt gael eu symleiddio hefyd. Roedd cael mynediad i arian yn cael ei ystyried yn sgîl, ac roedd angen cael pobl brofiadol a oedd yn deall y prosesau. Gwelwyd bod canfyddiad nad oedd gwybodaeth am grantiau ar gael yn hawdd, fodd bynnag, mae rhai ffynonellau gwybodaeth da ar gael. Yn aml, mae gan awdurdodau lleol borth grantiau lleol, mae gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ddefnyddiol, www.new.wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/grants, ac mae gan y Cyfeiriadur Newid Cymdeithasol ganllaw ar-lein i grantiau ac mae hefyd yn cynnig hyfforddiant ar sut i wneud cais am gyllid.

Argymhellion

- g) Dylai ymgeiswyr ddatblygu rhagor o brosiectau a fydd yn cyflwyno manteision amryfal o ran bioamrywiaeth, iechyd a lles cymdeithasol.**
- ng) Dylai *Flora locale* geisio gweithio gyda sefydliadau sy'n bartneriaid iddo er mwyn cyfleu manteision cyhoeddus a manteision cost dulliau ecolegol o reoli ac adfer tir.**

3.6 Gwybodaeth a sgiliau

O ran ymarferwyr sy'n ymwneud â datblygu a rheoli prosiectau adfer bioamrywiaeth nodwyd bod bylchau'n bodoli yn eu gwybodaeth am fotaneg, priddoedd a hydroleg.

Argymhellion

- h) Dylid argymell wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru ac Addysg Uwch Cymru (AUC) (1) y dylai cyrsiau addysg bellach ac addysg uwch ar gyfer rheolwyr tir (e.e. ffermio, garddwriaeth, ecoleg a pheirianneg) gynnwys modiwlau ar fotaneg ac adnabod planhigion gwylt brodorol Cymru, egwyddorion adfer a rheoli ecolegol, gweithio gyda phriddoedd a deall hydroleg, a (2) y dylid ystyried cynnig cyrsiau penodol ar fotaneg.
- i) Dylid argymell wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru y dylai dealltwriaeth a gwybodaeth am blanhigion gwylt a chynefinoedd Cymru fod yn bethau sy'n cael eu hannog mewn ysgolion.

3.7 Gwybodaeth a chyfathrebu

Gwelwyd bod cyfathrebu gwael rhwng adrannau awdurdodau lleol yn broblem sylweddol. Nododd y cynrychiolwyr broblemau o ran darganfod pwy sy'n gwneud beth yn eu hawdurdod lleol hefyd.

Argymhelliad

- j) Dylid gofyn i Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ddatblygu a hyrwyddo system reoli amgylcheddol safonol drawstoriadol ar gyfer y llywodraeth ac awdurdodau lleol, a fydd yn nodi'r cyfrifoldebau ar gyfer mynd i'r afael â bioamrywiaeth yng ngwaith yr awdurdod.

Mae gwybodaeth am arfer da ar gael o nifer o ffynonellau, ond mae'n gallu bod yn anodd cael gafael ar y wybodaeth honno, ac mae wedi'i gwasgaru ar draws nifer o gyhoeddiadau a gwefannau. Roedd y cynrychiolwyr yn cydnabod bod angen gwella'r broses rhannu gwybodaeth a chael gwell manteision o weithio mewn partneriaeth. Cawsant wybod am y wybodaeth dechnegol a'r wybodaeth ynghylch prosiectau sy'n arddangos arfer da ar wefan *Flora locale*. Ceir dolenni cyswllt gwerthfawr i wefannau eraill ar y wefan yn ogystal.

Argymhellion

- I) Dylid gofyn i Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru hyrwyddo gwefannau *Flora locale* fel rhai sy'n cynnig gwybodaeth dechnegol gadarn ac enghreifftiau o arfer da.
- II) Dylai sefydliadau anfon gwybodaeth am eu prosiectau (ar ffurf astudiaethau achos) i *Flora locale* er mwyn iddo gael ei phostio ar ei wefannau.

Mae angen i fioamrywiaeth ddod yn fwy perthnasol i fywydau pob dydd pobl. Mae angen cael rhagor o gefnogaeth gan y cyhoedd ar gyfer bioamrywiaeth, ac mae hynny'n golygu codi ymwybyddiaeth ynghylch planhigion gwylt a chynefinoedd ymhlith y cyhoedd, awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus.

Argymhelliad

- m) Dylai sefydliadau cadwraeth yng Nghymru ddatblygu'r arfer o weithio mewn partneriaeth ac achub ar gyfleoedd i rannu gwybodaeth a gweithio gyda Menter Dolydd Byw *Flora locale* i ddiogelu ac adfer planhigion gwylt a chynefinoedd Cymru trwy godi ymwybyddiaeth y cyhoedd.

3.8 Monitro

Ystyriwyd bod monitro llwyddiant prosiectau plannu er mwyn adfer yn wendid sylweddol, ac yn aml nid oedd yn cael ei ystyried wrth gynllunio prosiectau neu gyllidebu ar eu cyfer.

Argymhellion

- n) Dylai *Flora locale* weithio gyda sefydliadau sy'n bartneriaid iddo i chwilio am gyllid i ddatblygu canllawiau monitro syml ar gyfer gwerthuso llwyddiant prosiectau mewn perthynas â bioamrywiaeth, tirwedd a mwynhad y cyhoedd, y gellir eu cynnwys yn rhan o gynllun prosiect. Caiff y defnydd o fonitro ffotograffig ei argymhell yn gryf.
- o) O ran Cytundebau Adran 106, dylid gofyn i awdurdodau cynllunio gynnwys costau monitro ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud â datblygu.

4. Crynodeb o'r argymhellion

Mae'r crynodeb hwn yn nodi'r brif gynulleidfa ar gyfer pob argymhelliad. Fodd bynnag, mae'n debyg y gallai sefydliadau eraill gynorthwyo â'r gwaith o gyflawni'r camau gweithredu hyn.

Llywodraeth Cynulliad Cymru

- Dylid gofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru adolygu a diweddarau canllawiau polisi cynllunio sy'n ymwneud â bioamrywiaeth. Dylai'r canllawiau hyn argymhell defnyddio stoc brodorol sy'n tarddu o Gymru os yw'r datblygiadau'n cynnwys cyflwyno planhigion er budd bioamrywiaeth (creu ac adfer cynefinoedd). Os nad oes stoc sy'n tarddu o Gymru ar gael, dylid cael gafael ar stoc brodorol sy'n tarddu o ardal y gororau neu o leoedd ymhellach i ffwrdd ym Mhrydain (*fel y nodir yn argymhelliad (a)*).
- Dylid gofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru gyflwyno cymhelliad ariannol i berchnogion/ffermwyr safleoedd lle ceir glaswelltir sy'n llawn rhywogaethau sy'n addas i grynhoi hadau ohonynt (*fel y nodir yn argymhelliad (d)*).
- Dylid gofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru fynnu bod pob awdurdod lleol a chorff cyhoeddus yn cynnal Archwiliad Amgylcheddol ffurfiol ac yn datblygu System Reoli Amgylcheddol sy'n rhoi sylw llawn i warchod ac adfer bioamrywiaeth, ac sy'n ystyried mesur ôl troed carbon wrth reoli ystâd awdurdodau lleol (*fel y nodir yn argymhelliad (f)*).
- Dylid argymhell wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru ac Addysg Uwch Cymru (AUC) (1) y dylai cyrsiau addysg bellach ac addysg uwch ar gyfer rheolwyr tir (e.e. ffermio, garddwriaeth, ecoleg a pheirianneg) gynnwys modiwlau ar fotaneg ac adnabod cynefinoedd a phlanhigion gwyllt brodorol Cymru, egwyddorion adfer a rheoli ecolegol, gweithio gyda phriddoedd a deall hydroleg, a (2) y dylid ystyried cynnig cyrsiau penodol ar fotaneg (*fel y nodir yn argymhelliad (h)*).
- Dylid argymhell wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru y dylai dealltwriaeth a gwybodaeth am blanhigion gwyllt a chynefinoedd Cymru fod yn bethau sy'n cael eu hannog mewn ysgolion (*fel y nodir yn argymhelliad (i)*).

Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru

- Dylai Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru a swyddogion Bioamrywiaeth lleol ddatblygu dull o reoli mannau gwyrdd trefol a fydd yn gwella canlyniadau o ran bioamrywiaeth yn ystâd yr awdurdodau lleol. Mae'r awgrymiadau'n cynnwys darparu set o adnoddau i'r sawl sy'n rheoli ac yn cynnal mannau gwyrdd a chreu rôl Hyrwyddwr Bioamrywiaeth ar gyfer aelod etholedig o'r awdurdod lleol (*fel y nodir yn argymhelliad (e)*).
- Dylid gofyn i Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ddatblygu a hyrwyddo system reoli amgylcheddol safonol drawstoriadol ar gyfer y llywodraeth ac awdurdodau lleol, a fydd yn nodi'r cyfrifoldebau ar gyfer mynd i'r afael â bioamrywiaeth yng ngwaith yr awdurdod (*fel y nodir yn argymhelliad (j)*).

- Dylid gofyn i Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru hyrwyddo gwefannau *Flora locale* fel rhai sy'n cynnig gwybodaeth dechnegol gadarn ac enghreifftiau o arfer da (*fel y nodir yn argymhelliad (l)*).

Flora locale

- Dylai *Flora locale* chwilio am gyllid i ddod o hyd i gyflenwyr stoc plannu brodorol sy'n tarddu o Gymru, a sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael ar ei wefan (*fel y nodir yn argymhelliad (dd)*).
- Dylai *Flora locale*, sefydliadau ac unigolion sicrhau bod gwybodaeth ar gael ynghylch prosiectau o safon sydd wedi'u cynllunio'n dda gan ddefnyddio'r arfer gorau o ran egwyddorion adfer ecolegol sy'n gost-effeithiol. Gellir rhoi'r wybodaeth hon ar wefannau *Flora locale*, www.floralocale.org a www.wildmeadows.org.uk (*fel y nodir yn argymhelliad (ff)*).
- Dylai *Flora locale* weithio gyda sefydliadau sy'n bartneriaid iddo i chwilio am gyllid i ddatblygu canllawiau monitro syml ar gyfer gwerthuso llwyddiant prosiectau mewn perthynas â bioamrywiaeth, tirwedd a mwynhad y cyhoedd, y gellir eu cynnwys yn rhan o gynllun prosiect. Caiff y defnydd o fonitro ffotograffig ei argymhell yn gryf (*fel y nodir yn argymhelliad (n)*).
- Dylai *Flora locale* geisio gweithio gyda sefydliadau sy'n bartneriaid iddo er mwyn cyfleu manteision cyhoeddus a manteision cost dulliau ecolegol o reoli ac adfer tir (*fel y nodir yn argymhelliad (ng)*).

Cyffredinol

- Dylai sefydliadau ac unigolion sy'n cadw cofnodion ynghylch safleoedd sy'n werthfawr o safbwynt bioamrywiaeth ddod yn ymwybodol o werth cyflwyno eu gwybodaeth i Ganolfannau Cofnodion Lleol (*fel y nodir yn argymhelliad (b)*).
- Dylai rheolwyr prosiect gynllunio ymlaen ddigon; dylid rhoi archebion ar gyfer stoc plannu brodorol sy'n tarddu o Gymru yn gynnar yn y prosiect. Caiff tyfu i gontract ac adeiladu perthynas waith agos â thyfwr lleol eu hargymhell (*fel y nodir yn argymhelliad (c)*).
- Dylai manylebau ar gyfer stoc plannu fod yn glir ac yn ddiamwys er mwyn osgoi achosion o gam-gyflenwi (e.e. nid yw "tyfwyd yng Nghymru" yn golygu'r un peth â bod yn frodorol i Gymru neu darddu o Gymru). Argymhellir y dylid darllen cyhoeddiad *Flora locale*, *Planhigion gwyllt o Gymru er budd y dirwedd a bioamrywiaeth* (*fel y nodir yn argymhelliad (ch)*).
- Dylai ymgeiswyr ddatblygu rhagor o brosiectau a fydd yn cyflwyno manteision amryfal o ran bioamrywiaeth, iechyd a lles cymdeithasol (*fel y nodir yn argymhelliad (g)*).
- Dylai sefydliadau anfon gwybodaeth am eu prosiectau (ar ffurf astudiaethau achos) i *Flora locale* er mwyn iddo gael ei phostio ar ei wefannau (*fel y nodir yn argymhelliad (ll)*).
- Dylai sefydliadau cadwraeth yng Nghymru ddatblygu'r arfer o weithio mewn partneriaeth ac achub ar gyfleoedd i rannu gwybodaeth a gweithio gyda Menter Dolydd Byw *Flora locale* i ddiogelu ac adfer planhigion gwyllt a chynefinoedd Cymru trwy godi ymwybyddiaeth y cyhoedd (*fel y nodir yn argymhelliad (m)*).
- O ran Cytundebau Adran 106, dylid gofyn i awdurdodau cynllunio gynnwys costau monitro ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud â datblygu (*fel y nodir yn argymhelliad (o)*).

Atodiad A

Cynrychiolwyr

Zoe Abbott	Cadwch Gymru'n Daclus
Suzie Allen	Cyngor Bwrdeistref Castell-nedd Port Talbot/BTCV
Dr Richard Birch	Capita Symonds
Ursula Bowen	Shakespeare Link
Rosie Carmichael	Cyngor Sir Caerfyrddin
Mike Cherry	Adran Yr Economi a Thrafnidiaeth
Paul Chester	Y Grid Cenedlaethol
Stuart Craxford	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Becky Davies	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Michelle Delafield	Asiantaeth Cefnffyrdd Canolbarth Cymru
Gail Devine	Groundwork Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd a Phort Talbot
Andy Dodgson	Cyngor Sir Powys
Francois Dulong	Groundwork Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd a Phort Talbot
Emma Durward	Cyngor Sir Powys
Hilary Foster	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Rhian Griffiths	Tirlun Design
Catrin Grimstead	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Emma Hancock	Cyngor Bro Morgannwg
Sean Hathaway	Dinas a Sir Abertawe
Clive Heaton	Cyngor Sir Powys
Sheila Holmes	Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
David S. Hughes	Parc Gwledig Pen-bre
Mike Jenkins	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Marianne Jones	Asiantaeth yr Amgylchedd
Fiona Lanc	Habitat Matters Ltd
Rhian Langford	Groundwork Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd a Phort Talbot
Andrew Lucas	Cyngor Cefn Gwlad Cymru Rhanbarth y De-ddwyrain
Wendy Mackay	Groundwork Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd a Phort Talbot
Jo Mullett	Dinas a Sir Abertawe
Andrew Nevill	Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen
Dr Nic Perkins	BTCV Cymru
Clare Pooley	Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Brian Price	Cyngor Sir Powys
Mair Rees	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Aled Roderick	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Deborah Sazer	Cadwraeth Glöynnod Byw Cymru
Laura Shewring	Cyngor Sir Powys
Samantha Shove	TACP
Daniel Snaith	Cadwch Gymru'n Daclus
Richard Thomas	Cadwch Gymru'n Daclus
Trevor Thomas	Cyngor Sir Powys
Cliff Webb	Glasu
Derek Williams	Cyngor Gwynedd
Rob Williams	Salix

Siaradwyr a hwyluswyr

Iolo Williams	Noddwr y Fenter Dolydd Byw
Steven Bromley	Groundwork Cymru
Ivy Berkshire	Flora locale
Graham Cowden	Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Sue Clarke	Flora locale
Richard Clarke	Flora locale (Cadeirydd)
Sue Everett	Flora locale
David Holland	Salix River & Wetland Services
Kylie Jones	New Wildlife
Gerry Lucas	Prifysgol Edge Hill
Richard Scott	Y Ganolfan Blodau Gwyllt Genedlaethol
Noel Williams	Castle Cement